OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif (Cy. )

# YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

## Rheoliadau'r Amgylchedd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau ym mharagraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21(b) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill yng nghyfraith yr UE a ddargedwir sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae rheoliad 2 yn gwneud diwygiadau i Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 (O.S. 2012/1903 (C.230)).

Mae rheoliad 3 yn diwygio Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/390 (C.95)), sydd ei hun yn diwygio Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2010 (O.S. 2010/1433 (C.126)).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif (Cy. )

# YMADAEL Â’R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU

# DIOGELU’R AMGYLCHEDD, CYMRU

## Rheoliadau’r Amgylchedd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â’r UE) 2020

*Gofynion sifftio wedi eu bodloni* ***

*Gwnaed* ***

*Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* ***

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21(b) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(**1**).

Mae gofynion paragraff 4(2) o Atodlen 7 i’r Ddeddf honno (sy’n ymwneud â gweithdrefn graffu briodol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer y Rheoliadau hyn) wedi eu bodloni(**2**).

Yn unol â pharagraff 4 o Atodlen 2 i’r Ddeddf honno, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â’r Ysgrifennydd Gwladol.

---

(**1**) 2018 p. 16.

(**2**) Mae’r cyfeiriad yn Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 at Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael effaith bellach fel cyfeiriad at Senedd Cymru, yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

## Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw’r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau’r Amgylchedd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â’r UE) 2020.

(2) Daw’r Rheoliadau hyn i rym ar ddiwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu ac eithrio rheoliad 3 a ddaw i rym yn union cyn diwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu.

## Diwygio Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012

**2.**—(1) Mae Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012(**1**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle erthygl 11(3), rhodder—

“(3) Caiff Gweinidogion Cymru neu’r Ysgrifennydd Gwladol roi cyfarwyddiadau cyffredinol neu benodol i’r Corff er mwyn—

(a) sicrhau y bodlonir unrhyw un neu ragor o rwymedigaethau UE a ddargedwir, neu

(b) gweithredu unrhyw un neu ragor o rwymedigaethau rhyngwladol y Deyrnas Unedig.”

(3) Yn lle erthygl 11A(2)(b), rhodder—

“(b) o dan unrhyw ddeddfiad arall at ddiben—

(i) sicrhau y bodlonir unrhyw un neu ragor o rwymedigaethau UE a ddargedwir, neu

(ii) gweithredu unrhyw un neu ragor o rwymedigaethau rhyngwladol y Deyrnas Unedig,”.

(4) Yn lle erthygl 11A(4), rhodder—

“(4) Mae paragraff (5) yn gymwys os yw Gweinidogion Cymru neu’r Ysgrifennydd Gwladol yn amrywio neu’n dirymu unrhyw gyfarwyddyd a roddir i’r Corff (boed o dan erthygl 11 neu o dan unrhyw ddeddfiad arall) at ddiben—

(a) sicrhau y bodlonir unrhyw un neu ragor o rwymedigaethau UE a ddargedwir, neu

(b) gweithredu unrhyw un neu ragor o rwymedigaethau rhyngwladol y Deyrnas Unedig.

(**1**) O.S. 2012/1903 (Cy. 203), fel y’i diwygiwyd gan O.S. 2013/755 (Cy. 90) ac O.S. 2013/1821 (Cy. 1821).

(4A) Pan fo’r paragraff hwn yn gymwys, rhaid i’r person sy’n gwneud yr amrywiad neu’r dirymiad—

(a) cyhoeddi’r amrywiad neu’r dirymiad cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol;

(b) sicrhau bod copïau o’r amrywiad neu’r dirymiad ar gael ar gais.”

**Diwygio Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â’r UE) 2019**

**3.** Yn rheoliad 2(5)(a) o Reoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â’r UE) 2019(**1**), yn lle “Chyfarwyddeb 2008/1/EC” rhodder “Chyfarwyddeb 2010/75/EU”.

*Enw*
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad

(**1**) O.S. 2019/390 (Cy. 95).